**WELSH B – HIGHER LEVEL – PAPER 1**
**GALLOIS B – NIVEAU SUPÉRIEUR – ÉPREUVE 1**
**GALÉS B – NIVEL SUPERIOR – PRUEBA 1**

Monday 6 May 2002 (morning)
Lundi 6 mai 2002 (matin)
Lunes 6 de mayo de 2002 (mañana)

1 h 30 m

---

TEXT BOOKLET – INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this booklet until instructed to do so.
- This booklet contains all of the texts required for Paper 1 (Text handling).
- Answer the questions in the Question and Answer Booklet provided.

LIVRET DE TEXTES – INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Ne pas ouvrir ce livret avant d'y être autorisé.
- Ce livret contient tous les textes nécessaires à l'épreuve 1 (Lecture interactive).
- Répondre à toutes les questions dans le livret de questions et réponses.

CUADERNO DE TEXTOS – INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra este cuaderno hasta que se lo autoricen.
- Este cuaderno contiene todos los textos requeridos para la Prueba 1 (Manejo y comprensión de textos).
- Conteste todas las preguntas en el cuaderno de preguntas y respuestas.

**TESTUN A — CERDD**

# Alun Mabon

Roedd Alun Mabon yn ei ddydd
Yn fachgen cryf a hoyw:*
Yn berchen grudd a thalcen hardd,
A llygaid gloyw, gloyw.
Er nad oedd goeth wrth ddull y byd,
Fe ellid dweud er hynny
Fod ganddo galon gynnes bur
Yn natur wedi tyfu.

Ar fin y mynydd ganwyd ef,
Ac fel y blodyn bychan
Oedd ar y grug wrth gefn ei dŷ,
Blagurodd yntau allan.
Fe gafodd hafddydd yn yr haul,
A gaeaf yn y stormydd:
Ac yna megis blodyn grug,
Fe wywodd ar y mynydd.


Aros mae'r mynyddoedd mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt:
Clywir eto gyda'r wawr
Gân bugeiliaid megis cynt.
Eto tyf y llygad dydd
O gylch traed y graig a'r bryn,
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt
Newid ddaeth o rod i rod:
Mae cenhedlaeth wedi mynd
A chenhedlaeth wedi dod.
Wedi oes dymhestlog hir
Alun Mabon mwy nid yw,
Ond mae'r heniaith yn y tir
A'r alawon hen yn fyw.

---

* Mae'r gair 'hoyw' yn cael ei ddefnyddio yn y fan hon yn ei ystyr wreiddiol, sef 'bywiog, llawn bywyd'.

**TESTUN B — EISTEDDFOTA**





# eisteddfod a hanner

Mi fydd Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau yn Eisteddfod i'w chofio – a hynny am lond trol o resymau. Perfformir dau waith cerddorol a gomisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr Ŵyl – cyfres o ganeuon gan y cyfansoddwr lleol Robat Arwyn a berfformir gan Bryn Terfel, Côr Rhuthun ac A Oes Ateb? sy'n sioe gerdd wreiddiol gan Ann Davies a Nia Wyn Jones a berfformir gan disgyblion ysgolion cynradd dalgylch yr Eisteddfod. Mae Côr yr Eisteddfod eleni, sy'n cynnwys 425 o leisiau lleol, yn un o'r corau mwyaf yn hanes yr Ŵyl. Bydd Bryn Terfel, Rhys Meirion a Shân Cothi ymhlith yr artistiaid fydd yn perfformio yn y cyngherddau hwyrol. Bydd cyn-enillwyr cystadleuaeth Rhuban Glas yr Eisteddfod yn ymuno â Chorau Meibion dalgylch yr Eisteddfod mewn gwledd o gân. A'r gair olaf i Hywel Wyn Edwards, Trefnydd yr Eisteddfod, "Hon wedi'r cyfan yw gwir Eisteddfod gynta'r Mileniwm!"

# E-steddfod Ryngweithiol Arloesol y Beirdd

**Annedd y Cynganeddwyr yn lleddfu siom eisteddfodwyr**

Gydag Eisteddfodau yr Urdd, Môn a Phontrhydfendigaid wedi eu canslo, mae gwefan boblogaidd Annedd y Cynganeddwyr (**www.cynghanedd.com**) wedi llamu i'r bwlch a threfnu e-steddfod arloesol ar gyfer beirdd Cymru. Am y tro cyntaf erioed mewn canrifoedd o eisteddfota, gwelwyd dirgel ffyrdd y drefn eisteddfodol yn cael eu chwalu wrth i'r trefnwyr fanteisio ar uniongyrchedd a natur ryngweithiol y we. Yn groes i'r drefn arferol, roedd modd i bawb ddarllen y cynnyrch wrth iddo gael ei ollwng o ddwylo'r beirdd a chael cyfle unigryw hefyd i gynnig eu sylwadau answyddogol ar y cynnyrch ymhell cyn i'r beirniad swyddogol wneud ei waith. Gosodwyd tair cystadleuaeth i gyd, ac o fewn ychydig ddyddiau i lansio'r Rhestr Testunau, roedd degau o gynigion eisoes i'w gweld ar dudalennau'r Annedd. Y dyddiad cau ar gyfer yr holl gystadlaethau oedd Mai 1af ac roedd disgwyl mawr ymhlith dilynwyr y wefan i weld beth oedd y dyfarniad ar y tair cystadleuaeth, sef englyn yn cynnwys y geiriau 'yma o hyd', cywydd 6 llinell yn cychwyn 'wedi mynd' ac englyn gwael iawn. I weld yr holl gerddi a gynigiwyd i'r gystadleuaeth, ewch i'r wefan a chael gweld yno hefyd farn y llu o feirniaid answyddogol sydd wedi bod yn bwrw golwg dros y cerddi. Gallwch ychwanegu at y sylwadau hyn neu anfon cerdd i gael ei chyhoeddi ar y wefan, neu drafod un o bynciau llosg y dydd. Beirniad swyddogol y gystadleuaeth a phrif symbylydd yr e-gwyl oedd 'Y Bilwg', un o breswylwyr chwedlonol yr Annedd. Dywedodd: "Unwaith eto yn ein hanes, wele'r beirdd ar flaen y gad, ac yn arwain y genedl tuag at wlad yr addewid." Am ragor o fanylion, cysylltwch â: yprifgopyn@cynghanedd.com (trefnydd) neu ybilwg @hotmail.com (y beirniad).

**TESTUN C — MARWOLAETH Y GYMRAEG?**

***Paragraff A***

Dywedodd y gwleidydd blaengar hwnnw a fathodd y gair 'winjar' bod pobl wedi bod yn dweud bod yr iaith ar fin marw ers dros bymtheg can mlynedd ond ei bod yn gryfach heddiw nag y bu erioed. Fe fu adeg pan oedd y Lladin yn cael ei dysgu i bob plentyn ysgol, ond iaith farw ydoedd. Y mae'r iaith Gymraeg yn mynd yr un ffordd. Y mae defnydd ohoni fel iaith weithredol a chymdeithasol wedi disgyn i lefelau peryglus. Y ddau reswm am hyn, fel y gŵyr pawb sy'n gyfarwydd â'r broblem, yw:

***Paragraff B***

Ond mae mwy iddi na hynny. Ateb tymor hir yw newid yr hinsawdd economaidd, ac er bod hynny yn hollol allweddol i ddyfodol llewyrchus ein cymunedau, nid yw yn ateb tymor byr. Cyn bod unrhyw bolisïau economaidd yn gallu bod yn effeithiol i wyrdroi'r sefyllfa fe fyddai'n rhaid i economi cefn gwlad fod mor gryf ag economi de-ddwyrain Lloegr, gyda phrisiau'r tai yn gyfartal. Ond nid yw honno'n sefyllfa y byddai'n bosibl ei gwireddu yn y dyfodol gweladwy, a'r tebygrwydd yw na fydd byth yn bosibl. Y mae angen gweithredu ar unwaith i atal y sefyllfa rhag gwaethygu, oherwydd nid yn unig ymladd yn erbyn tlodi yr ydym yma ond ymladd am yr hawl sylfaenol i fodoli mewn heddwch meddwl yn ein dull traddodiadol – yn ein cymunedau cynhenid. I'r rheini ohonom sydd yn byw yn nes at lygad y sefyllfa druenus hon gwelwn mai'r peth sydd yn digwydd yw cenedl-laddiad gyda gwladychiad diwylliannol yn cymryd lle drwy'r drws cefn.

***Paragraff C***

Ers dechrau'r ganrif hon amhosibl yw peidio â theimlo rhyw awyrgylch o bryder enfawr ymhlith y werin bobl yng Nghymru. Teimla pobl cefn gwlad a brodorion ardaloedd yr arfordir a driga yn y broydd Cymraeg – pobl llawr gwlad fel y'u gelwir – fod yr haul yn machlud ar eu hiaith, eu diwylliant a'u ffordd draddodiadol o fyw. Ymateb y Cymry (di-Gymraeg a rhai Cymraeg eu haith) sydd ddim yn byw yn yr ardaloedd hyn nac yn cael profiad o'r sefyllfa hon o ddydd i ddydd, yw bod y trigolion yn gorymateb, yn gul eu gweledigaeth ac yn 'winjars' (gair a fathwyd yn ddiweddar i ddisgrifio unrhyw Gymro sy'n datgan pryder am fodolaeth ei genedl).

***Paragraff CH***

Yn gyntaf, y mewnlifiad anferth o estroniaid o Loegr i'r ardaloedd traddodiadol Cymraeg, ac yn ail, y gwaedlif o bobol ifainc allan o'r ardaloedd Cymraeg (i dderbyn addysg uwch, ac ar ôl hynny i weithio y tu allan i froydd eu mebyd).

***Paragraff D***

Ateb y mwyafrif o'r gwleidyddion yng Nghymru i'r broblem hon yw bod eisiau adfywio'r economi leol yn yr ardaloedd hyn. Gwir yw hynny wrth gwrs, oherwydd fe fyddai economi gryfach yn galluogi pobl i gael gwaith trwy greu rhagor o swyddi, i ennill rhagor o arian, ac i gystadlu yn y farchnad.

**TESTUN CH — RHAGLENNI TELEDU**



## *Rhaglen 1*

PAN fu'n rhaid gohirio Gŵyl Drotian Tregaron eleni oherwydd argyfwng clwy'r traed a'r genau, trodd y trefnwyr eu golygon i gyfeiriad Iwerddon.

Am eu bod yn benderfynol o beidio â siomi'r miloedd o gefnogwyr sy'n mynychu'r rasys blynyddol yn Nhregaron yn ystod Gŵyl y Banc ym mis Awst, trefnwyd penwythnos o rasio ar gyrion Dulyn.

Teledir rhifyn arbennig o Rasus Port Marnock o Ŵyl Drotian Port Marnock nos Sadwrn.

Bydd llond sawl bws o gefnogwyr o Gymru'n mynychu'r rasys, a fydd yn cynnwys sawl elfen o Ŵyl Tregaron.


A disgwylir y bydd ambell geffyl o Gymru'n cymryd rhan yn yr Ŵyl ddeuddydd.

## *Rhaglen 2*

Y Preseli yw un o ardaloedd mwyaf hudol a phrydferth Cymru. O'i llethrau garw gleision, tafodiaith a thraddodiadau hynod a'r arfordir gwyllt gerllaw, mae'n hawdd deall pam mae pobl yn mwynhau ymweld ag ardal y Preseli.

Ac i goroni'r cyfan mae croeso mawr yn disgwyl ymwelwyr i'r ardal fel y darganfu Dai Jones, Llanilar wrth ffilmio pedair rhaglen arbennig yn yr ardal y llynedd. Mae Cefn Gwlad: Preseli yn dilyn trigolion yr ardal hyfryd hon yn Sir Benfro dros gyfnod o flwyddyn gan ddechrau gyda rhaglen arbennig am dymor y Gaeaf.

## *Rhaglen 3*




Beth fyddech chi'n ei wneud pe baech yn ennill y loteri? Prynu tŷ newydd; mynd ar wyliau hir; rhoi'r arian i ffwrdd? Mewn rhaglen arbennig ar S4C, Lot o'r Loteri, cawn glywed gan rai o'r Cymry hynny sydd wedi ennill arian mawr.

Mae Ann Williams yn rheolwr gofal yn Nhŷ Gobaith, Croesoswallt ac yn un o 20 o bobl o'r ganolfan sy'n gofalu am blant gydag anghenion arbennig, i ennill £2.3 miliwn ar y Loteri Genedlaethol.

"Wnaethon ni rannu'r arian 21 gwaith gan roi arian mawr mewn i Dŷ Gobaith hefyd. Cawsom ni ychydig dros £100,000 yr un. Rhoddais i siec i fy rhieni a fy mrodyr a chwiorydd, prynais gar newydd a hefyd mynd ar wyliau."

Enillodd Doris Lewis o Fangor £491,000 ar y Loteri Genedlaethol ond mae'n honni nad yw'r arian wedi ei newid. "Rydw i wedi gwneud yn siwr bod y teulu'n iawn, ond dydyn nhw ddim wedi cael eu sbwylio ac mae fy ffrindia' yn dal i fy nhrin yr un peth."

Ers ennill y loteri yn 1997 mae Arwel Lewis sy'n byw yn Spalding wedi buddsoddi yn ei fusnes ei hun, sef tyfu, prynu a gwerthu blodau a phlanhigion. Mae hefyd wedi prynu car mawr ar gyfer y teulu a gwireddu breuddwyd oes drwy brynu tri chi Rhodesian Ridgeback.

Mae Michael Williams o Bencaenewydd, Pwllheli, hefyd wedi gwireddu breuddwyd ar ôl ennill £387,127 ar y Loteri Genedlaethol, gan sicrhau fod ei siop leol yn ailagor.